CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Trawsgydymffurfio: diogelu tir rhag erydiad (GAEC 5) (2015)

Crynodeb o'r rheolau ar osgoi difrodi'ch pridd.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 1 Tachwedd 2015

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 15 Rhagfyr 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-diogelu-tir-rhag-erydiad-gaec-5-2015-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cynnwys

**Cyflwyniad** (https://www.llyw.cymru#101371)

**Y prif ofynion** (https://www.llyw.cymru#101373)

**Archwiliadau maes** (https://www.llyw.cymru#101375)

**Arfer da** (https://www.llyw.cymru#101377)

**Gwybodaeth pellach** (https://www.llyw.cymru#101379)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-diogelu-tir-rhag-erydiad-gaec-5-2015-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cyflwyniad

Amcan y rheol hon yw diogelu pridd rhag erydiad trwy osgoi rhai gweithgareddau.

Mae cywasgu'r uwchbridd a'r isbridd yn gallu gwneud difrod mawr i adeiladwaith y pridd, gan effeithio ar dyfiant gwreiddiau a lleihau'r dŵr a'r aer y mae'r pridd yn gallu eu cario. Gallwch leihau'r difrod hwn ac yn wir ei osgoi yn llwyr trwy gymryd y camau priodol.

# Y prif ofynion

- peidiwch â gadael i anifeiliaid orbori tir amaethyddol
- peidiwch â gadael i unrhyw beth stablad (sathru) na rhigoli'r tir
- peidiwch â gweithio ar y tir â pheiriannau os yw'r pridd yn llawn dŵr, oni bai bod rhaid am y rhesymau canlynol:
  1. lles anifeiliaid neu i ddiogelu pobl
  2. gwella draeniad y pridd
  3. rhoi gypswm mewn pridd sydd wedi'i lygru gan ddŵr heli
  4. cadw at ddyddiad contract i gynaeafu cnwd ar bridd llawn dŵr, neu
  5. bod tir llawn dŵr o fewn 20 metr i fynedfa tir sydd heb fod yn llawn dŵr a bod yn rhaid ichi fynd i'r tir hwnnw

Pwysig. Os oes yn rhaid cynnal un o'r uchod, rhaid rhoi tystiolaeth ffotograffig neu brawf arall i Taliadau Gwledig Cymru i brofi'i fod yn gwbl angenrheidiol.

- i osgoi erydiad ar dir sy'n cael ei gynaeafu'n hwyr neu dir lle mae'r porthiant neu'r cnwd gwreiddiau wedi'i bori at y bôn ac nad yw'n bosib hau cnwd gorchudd, rhaid rhoi mesurau priodol yn eu lle i ddiogelu'r pridd rhag ei erydu, naill ai trwy godi ffens waddodion neu ddefnyddio aradr gynion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-diogelu-tir-rhag-erydiad-gaec-5-2015-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

- rhaid llenwi a chyflwyno ffurflen asesu risg pridd garw i Taliadau Gwledig Cymru os ydych yn gadael pridd sydd wedi'i aredig yn arw rhwng y cynhaeaf ac 1 Mawrth y flwyddyn ganlynol

## Archwiliadau maes

- i gadarnhau nad yw'r pridd yn cael ei olchi i lawr llethrau neu oddi ar y cae
- i chwilio am arwyddion bod da byw wedi erydu glannau cwrs dŵr yn drwm
- i chwilio am arwyddion stablad (sathru) a rhigoli trwm
- i chwilio am arwyddion o orbori
- i weld a oes dŵr wedi crynhoi yn llwybrau tractor – byddai hynny'n arwydd bod y pridd wedi'i gapio neu ei gywasgu – a gofalu bod y llwybrau'n dilyn rhediad y cae
- i ofalu bod y peiriannau sy'n cael eu dewis i drin y tir yn addas ar gyfer cyflwr y pridd ac nad yw'r pridd ar wely hadau yn rhy fân, yn enwedig ar bridd ysgafn
- i ofalu bod mesurau addas wedi'u cymryd i ddiogelu'r pridd rhag erydiad ar dir sydd wedi'i gynaeafu'n hwyr neu lle mae'r porthiant neu'r cnwd gwreiddiau wedi'i bori at y bôn neu lle bo wyneb garw yn cael ei adael dros y gaeaf

## Arfer da

- darparwch gafnau dŵr i'ch stoc er mwyn diogelu cyrsiau dŵr. Symudwch y cafnau hyn yn rheolaidd
- os ydych yn rhoi bwyd ychwanegol i'ch stoc, gofalwch nad ydynt yn sathru llystyfiant lled naturiol nac yn stablad y pridd na bod y cerbydau sy'n cario'r bwyd yn rhigoli'r pridd
- symudwch y cafnau bwydo'n rheolaidd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-diogelu-tir-rhag-erydiad-gaec-5-2015-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

- sicrhewch nad yw da byw yn sathru ar lystyfiant sensitif e.e. ar fannau gwlyb, cyforgors a choetir
- defnyddiwch deiars sy’n gwasgaru pwysau’r cerbyd neu olwynion dwbl lle bo angen. Peidiwch â defnyddio cerbyd os oes perygl y gallai ddifrodi’r tir
- rhowch sylw arbennig i dalarau a llwybrau tractorau rhag eu cywasgu gan symudiadau rheolaidd
- ar waelod caeau sydd ar lethr a lle mae erydiad yn debygol, gadewch lain o dir 5 metr o led heb ei aredig na’i drin, neu godwch ffens waddodion

## Gwybodaeth pellach

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

- Llywodraeth Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

neu gweler y daflen **Trawsgydymffurfio: cysylltiadau defnyddiol (2025)** (https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-cysylltiadau-defnyddiol-2025) o fewn y pecyn hwn.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-diogelu-tir-rhag-erydiad-gaec-5-2015-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).